

Cynllun Gwers

Blwyddyn: 2	Maes Dysgu a Phrofiad: Iaith, llythrennedd a chyfarthrebu (Iaith ar daith)	Nod y wers: Ysgrifennu protread cymeriad
Gwybodaeth flaenorol: - Darllen stori Santes Dwynwen, trafod y cymeriadau yn y stori. - Cyflwyno i'r plant bydd tasg nhw i ysgrifennu portread cymeriad dewis nhw (llais y disgybl), ac roedd rhaid casglu geirfa i ddisgrifio llun cymeriad er mwyn gallu ysgrifennu cymariaethau. - Dilyniant dysgu 3 sesiwn, felly sesiwn un oedd enghreifftiau cymariaethau ar y bwrdd gwyn, creu brawddegau ar y cyd ar y carped.	Geirfa allweddol: - Mae gan... - Mae gan... fel ...ganddi hi... Ffocws iaith: Cystrawennau: - Mae gan... - Ymarfer agoriadau brawddeg - Ailadrodd Drilio iaith. - Mae gan Dwynwen llygaid brown, pa lliw llygiad sydd gan Maelon? - Mae gan Maelon llygiad gwyrdd, beth amdano'r angel?"	Gweithgareddau: Cyflwyniad: Gan ddefnyddio bag ffa, rhoi enghraifft o frawddeg. Taflu wedyn i'r plant rhannu syniadau nhw, gwelir enghraifft yn y fideo. Creu MPLI ar y cyd ar y carped, felly edrych ar elfennau gramadeg ysgrifennu. Tasg ffocws: Ysgrifennu protread cymeriad gan amrywio brawddegau. Gwelir ail clip fideo o'r wers. Yn ystod y tasg ffocws roedd mat eirfa ar y bwrdd gwyn, a ysgrifennu ar y cyd gyda grwp gallu isel. Tasg annibynnol: gem rholio darllen (partneriaid), geiriau tric a chlic i ddarllen a wedyn gwneud chwilair i cydfynd a gludo yn llyfr tric a chlic. Tasg chromlyfrau: gemau 'wordwall' iaith i adolygu cyn wybodaeth.
Adnoddau: - Pŵer pwynt – MPLI - Bag ffa – Drilio iaith		


MPLI: Beth ydych chi angen i
ysgrifennu disgrifiad da?

Mae angen cynnwys:

Ansoddeiriau i ddisgrifio golwg a
phersonoliaeth. Meddwl am wallt, llygaid
a'r holl liwiau sydd yn y llun. Meddyliwch
am ba fath o berson mae eich cymeriad?
Ydyn nhw'n greulon neu'n garedig?

Enghraifft un o ddoe

dyma un da



Mae gan Dwynwen gwallt du fel awyr y nos.
Llygaid brown fel siocled sydd gan Dwynwen. Mae
ganddi hi ffrog melyn fel machlud haul.
Mae Dwynwen yn garedig fel mami.

2 seren a dymuniad
Beth sy'n dda? Gramedeg
(PL/.)/agoriadau/Cymariaethau

Tasg annibynnol

Rholio a Darllen

•	moch	dol	twll	mud	tun
••	pin	dis	mis	cig	bin
•••	boch	lliw	llon	mig	pan
••••	coch	mul	llun	pig	man
•••••	cwch	llwch	llyn	deg	llon
••••••	sach	pwll	hud	ceg	pot

Lefel 3

Rholio a Darllen

•	ffon	sudd	dyn	ffan	peth
••	rhaff	rhes	syn	ffyn	rhyd
•••	sedd	set	rhif	byd	medd
••••	fet	rhos	haf	beth	Rhys
•••••	fan	rhan	lwc	mes	mud
••••••	jam	rhodd	llan	jet	Sul

Lefel 4

Rholio a Darllen

•	bat	mwg	tal	syth	bag
••	peg	bol	bws	nos	hem
•••	pen	pos	math	bath	sws
••••	map	cath	wal	nyth	pos
•••••	bol	cas	ceg	mat	teg
••••••	ras	man	lan	peth	het

Lefel 2

Tasg annibynnol

Chwilair 1

Lefel 3

h m u l t j

e t c i n g

d f h t i a

n i r f b y

a b f c h i n

r c u l w h

ci
chi
ni

ti
cul
mul

Chwilair 2

Lefel 3

c o ch h t a

d s a ch f t

a r g b a ch

e r m o ch n

b o ch i h l

c w ch a b y

sach
bach
boch

moch
coch
cwch

Chwilair 1

Lefel 4

s r t b o d

i u n t b a

o n d h t b

i r d a u n

u w t d a d

j t r i f a

un
dau
tri

dad
ond
bod

Chwilair 2

Lefel 4

t g b o dd h

m o dd t a r

f a r h o dd

d s u dd e i

e m s e dd u

d y dd t d r

bodd
modd
rhodd

sudd
sedd
dydd

Chwilair 1

Lefel 2

b e th g e b

s f e t o f

g c r b a t

d t o r g h

w r th b c y

n f d b e t

to
eto
bet

beth
wrth
bat

Chwilair 2

Lefel 2

g a n b r s

m e a b a g

t s n a h d

n b a w d w

l i j n a c

n a w n b m

na
nac
naw

baw
bag
gan

Gwerthusiad

Roeddwn yn dysgu mewn dosbarth gallu eang iawn ac felly wrth baratoi dilyniant o wersi mae'n rhoi'r cyfle i bawb ddangos cynnydd yn eu gwaith. Roedd y wers yma yn groniad o gyfres o wersi thema Santes Dwynwen, mae'r dosbarth wedi gweithio'n galed er mwyn gallu ymateb i ddisgrifio cymeriad o'r stori. Mae sesiynnau yn ystod y diwrnod yn para hydd at awr sy'n cynnwys cyflwyniad, tasg ffocws, tasg annibynnol a tasgau eraill gwelir cynllun gwers.

Un peth wnaeth gweithio'n dda yn ystod y sesiwn hon roedd y ffordd roedd y disgyblion dosbarth blwyddyn 2 wedi defnyddio gem bag ffa, rhywbeth mae'r plant yn amlwg gydag ar ôl hyfforddiant drilio iaith cefais gan y consortiwm canolbarth yn yr ysgol. Roedd bwriad defnyddio y bag ffa oedd i'r plant ateb yn effeithiol ac yn gyflym, gan geisio eu cael i feddwl am waith blaenorol.

Felly roedd defnyddio strategaeth hwyl a sbri a newydd gyda'r plant yn annog nhw i fod yn gyffrous wrth ateb. Ond yn cyferbynnu hyn roedd pob plentyn eisiau tro pob sesiwn ac roedd hyn yn hefyd gallu gwneud i'r plant cam ddweud yr ateb achos roedd ffocws nhw ar y bag ffa a ddim ar beth roedd rhaid ateb. Doedd hyn ddim yn rhywbeth amlwg ond rhywbeth fyddwn yn ystyried y tro nesaf byddwn yn defnyddio'r bag ffa yn y dosbarth. Y tro nesaf byddwn i'n ceisio datblygu'r strategaeth ymhellach trwy herio fy nhopiau i amrywio eu dechreuwyr arogl a rhoi mwy o gyfle i'm gwaelodion ateb. Rwyf wedi meddwl am ychydig o ffyrdd y gallai pawb ateb yn effeithiol un yw cael pawb i sefyll ar eu traed ac eistedd i lawr ar ôl iddynt gael tro fel bod y plant yn gallu gweld yn glir pwy sydd ar ôl.

Roedd y gêm bagiau ffa hefyd yn cynnwys llawer o ailadrodd sy'n ffordd dda i'r plant â llai o hyder gael eu hatgoffa sut i ateb, rwy'n teimlo trwy ddefnyddio bag ffa ei fod yn llai brawychus na rhoi eich llaw i fyny.

Gwerthusiad

Penderfynais guddio fy nyfais fel na allai'r disgyblion ei weld, ond roeddent yn ymwybodol bod y fideo yn cael ei gymryd yn dilyn canllawiau BERA 2024 mae gan bob plentyn ganiatâd i gael ei ffilmio.

Gwelir yn y fideo'r plant troi a chwifio i'r camera a chwerthin a thrafod fod y ffôn yn gwylio nhw, roedd hyn yn rhywbeth wnes i dynnu sylw at yn y fideo fyddwn yn esbonio eto i'r plant pam gan sicrhau roeddent yn ymwybodol. Efallai y tro nesaf byddai yn atgoffa'r plant fod recordiad yn mynd i ddigwydd eto cyn iddo fe ddigwydd, fel bod y disgyblion yn gallu canolbwyntio ar y dasg roedd angen llwyddo gwneud.

Rhywbeth arall roedd yn llwyddiannus oherwydd bod y gwersi hyn wedi digwydd dros amser roedd modd gweld hyder yn atebion plant a thrwy ddefnyddio cymariaethau roedd y plant yn cael cyfle i ddefnyddi o fwy o'u dychymyg. Ar y cyfan rwyf yn meddwl ei fod defnyddio bag ffa i drilio iaith yn effeithiol ar gyfer fy nosbarth blwyddyn dau.

Yn y fideo gallwch fy ngweld yn gweithio gyda grŵp gallu isel fy nosbarth, felly roedd llawer o sgaffaldu i'w wneud wrth ysgrifennu eu disgrifiad. Mae sgaffaldu mewn ystafelloedd dosbarth ar gyfer plant sydd angen cymorth ychwanegol yn llwyddo mewn tasgau annibynnol gan yr athro dosbarth yn cefnogi gydag arweiniad ond hefyd yn gallu camu yn ôl dros amser (Vygotsky, 1978), mae'r gwaith ysgrifennu disgrifiadol hwn wedi digwydd dros nifer o ddyddiau yn arwain at yr ysgrifennu annibynnol le mae plant yn gallu edrych nol yn eu llyfr am waith blaenorol am gymorth. Yn y ffilm gallwch weld y grŵp roeddwn i'n gweithio gyda dal angen help gyda sillafu, a buom yn gweithio ar fel grŵp yn gofyn i gyfoedion os gallent helpu hefyd, tra'n annog mwy o annibyniaeth.

Gwerthusiad

Symud ymlaen i dasg annibynnol roedd cryfderau a gwendidau i'r dasg hon yn dibynnu ar allu'r disgybl i'w gwneud, roedd pob plentyn yn mwynhau defnyddio'r dis yn y dosbarth i ddewis geiriau i'w darllen ond gan ei fod yn dasg annibynnol anodd oedd gwrandio ar sut roedd y plant yn darllen y geiriau ac a oeddent yn gywir. Gyda'r mwyafrif roeddwn yn hyderus bod y geiriau'n cael eu darllen yn gywir ac yn chwarae'n deg, gydag eraill roedd yn rhaid i mi ymyrryd dim ond i'w hatgoffa o'r rheolau. Cefais iddynt groesi'r geiriau yr oeddent wedi'u darllen allan gyda beiro bwrdd gwyn a oedd yn ei gwneud hi'n haws gwybod pryd y gallent symud ymlaen i wneud y chwilair a'i gludo wedyn yn eu llyfrau tric a chlic. Cryfder arall i'r dasg hon oedd bod lefelau anhawster gwahanol i'r geiriau a olygai y gallwn ychwanegu neu dynnu geiriau a oedd o fudd i rai plant. Ar y cyfan, trefnwyd y dasg annibynnol hon i wella annibyniaeth yn y dosbarth, a chyflwyno geiriau darllen newydd wrth ei gwneud yn hwyl defnyddio chwilair.

I gloi yn fy marn i redodd y wers gyfan yn esmwyth gan ymgysylltu â gwahanol strategaethau i wella sgiliau'r disgyblion, o'r gêm bag ffa, chwileiriau, gemau ar y chrome lyfrau ac i dasg ffocws. Roedd pob plentyn yn fy ystafell ddosbarth yn gweithio ar sgil i wella eu hiaith a'u gramadeg, pe bawn i'n addysgu'r wers hon eto byddwn yn newid cwpl o bethau ar gyfer fy ngrwpiau gallu uwch trwy eu herio ymhellach gyda geiriau gwahanol. Cefais sgwrs gyda fy mentor dosbarth a gosododd fel targed herio gallu uwch y dosbarth pellach, trwy ymestyn ei frawddegau ac amrywio agoriadau frawddegau fwy wrth ysgrifennu.

Cyfeirnod

BERA (2024). *Ethical Guidelines for Educational Research, Fifth Edition (2024)*. www.bera.ac.uk.
<https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-fifth-edition-2024>.

Vygotsky, L.S., 1978. *Mind in society: The development of higher psychological processes*. Cambridge, MA: Harvard University Press.